



Cyngor Sir Ceredigion
Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

2017-2020

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020

Beth yw gweledigaeth, nod ac amcanion eich awdurdod lleol ar gyfer addysg cyfrwng Gymraeg dros y tair mlynedd nesaf?

- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn glir ei nod a'i egwyddor o ddatblygu medrau ein disgyblion er mwyn iddynt ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn rhugl a hyderus a hynny mewn gwahanol sefyllfaoedd. Bydd hyn yn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni gan feithrin balchder yn ieithoedd, treftadaeth a diwylliant Ceredigion a Chymru.
- Mae Awdurdod Addysg Ceredigion am sicrhau pwyslais priodol ar y Gymraeg a'i diwylliant ac yn credu'n gryf yn y gwerth addysgol o fedru cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg a hynny er budd ein holl ddisgyblion. Mae'r Awdurdod Addysg yn datgan yn bendant o blaid datblygu disgyblion sydd yn hyderus ddwyieithog yn holl ysgolion cynradd ac uwchradd Ceredigion.
- Mae Strategaeth Iaith Ysgolion Ceredigion (2008) yn allweddol i lwyddiant y ddarpariaeth ddwyieithog ac mae Strategaeth Iaith Ysgolion Ceredigion yn sail gadarn a diamwys i'r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg 2017-2020 a bydd darparu a gweithredu targedau ymarferol yn arwain at ddatblygiad mewn dwyieithrwydd ar bob lefel.
- Mae Awdurdod Addysg Ceredigion am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cynnig cyd-destunau cyfoethog, perthnasol a chreadigol (i gynnwys datblygiadau diweddaraf TGCh) lle gellir ymestyn a chymhwyso eu sgiliau iaith. Mae cynnig cyfleoedd i ymestyn ar sgiliau llafar (yn benodol) ymhob cyfnod ar hyd y daith addysgol yn greiddiol i hyn er mwyn cael siaradwyr rhugl a hyderus.
- Mae'r awdurdod yn cynnig gwersi Cymraeg i Oedolion/ Gloywi Iaith i staff y Cyngor Sir, ac yn medru cynnig gwersi/ hyfforddiant i staff/ athrawon yn unol â'r galw.
- Bydd yr awdurdod, gyda chymorth partneriaid eraill, yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r gwerth y mae plant a phobl ifanc, athrawon, llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr a'r cyhoedd yn ei roi ar y Gymraeg drwy ganolbwyntio'n fwy ar ei gwerth masnachol yn y farchnad swyddi, y manteision gwybyddol o ddwyieithrwydd a phwysigrwydd y Gymraeg wrth alluogi plant a phobl ifanc i gael dealltwriaeth dda o fywyd diwylliannol Cymru yn y gorffennol a'r presennol. Dyma yw'r nodau a osodir yn adroddiad yr Athro Donaldson ar gyfer dyfodol llwyddiannus i'r Gymraeg.
- Bydd yr awdurdod hefyd yn sicrhau bod gan deuluoedd fynediad ac ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael ar eu cyfer wrth i'w plant a'u pobl ifanc ddatblygu ar hyd y llwybr/ continwwm iaith.
- Bydd yr awdurdod yn parhau i ganolbwyntio ar gryfhau'r iaith yn ei ysgolion cynradd drwy fuddsoddi a gweld gwelliannau yn y ddarpariaeth er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer dysgu drwy'r Gymraeg ac ieithoedd eraill yn yr ysgol uwchradd.
- Bydd yr awdurdod yn gweithio ar lefel rhanbarthol er mwyn rhannu adnoddau ac arbenigedd ac yn annog creu cysylltiadau rhwng ysgolion er mwyn gwella ansawdd addysgu a dysgu ieithyddol.
- Bydd y cyngor yn cynllunio ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg yn y sir. Bydd yr awdurdod yn ceisio sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector nas-gynhelir/ meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn

rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r disgwyliad y bydd pob disgybl sydd wedi dilyn y rhaglen Gymraeg iaith gyntaf yn y cyfnod cynradd yn parhau gyda'r rhaglen hon wrth drosglwyddo i'r uwchradd.

- Bydd yr awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid perthnasol er mwyn annog trosglwyddiad y Gymraeg o fewn teuluoedd ac wrth gyflwyno gwerthoedd cadarnhaol tuag at y Gymraeg o fewn cymunedau Ceredigion.
- Bydd yr awdurdod yn cyd-weithio gyda'r Mudiad Meithrin er mwyn hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Gymraeg a'i fanteision ymysg cymunedau lleol a darpar rieni.
- Bydd yr Awdurdod yn cyd-weithio gyda Dechrau'n Deg fel bod y Gymraeg yn ganolog i'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth a gaiff teuluoedd o bob cefndir cymdeithasol ac i sicrhau nad yw tlodi yn amddifadu plant a phobl ifanc rhag derbyn addysg Gymraeg a chyrraedd eu potensial. Mae hyn yn gymorth i greu cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. Bydd datblygu sgiliau iaith cynnar plant ifanc a'u helpu i fod yn 'Barod i Ddysgu' yn nod i'r strategaeth yma ac i'n strategaeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar.
- Mae'r Awdurdod, drwy'r strategaeth hwn yn cyfrannu at ei ddyletswydd dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i hyrwyddo a gwarchod diwylliant, treftadaeth Cymru a'r Gymraeg. Mae'n cyfrannu at y nod o Gymru lle mae diwylliant bywiog gyda'r Gymraeg yn ffynnu.
- Mae'r cynllun hwn yn cyd-blethu gyda Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru ar gyfer creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Awdurdod Addysg Ceredigion yn cytuno gyda'r farn mai'r drefn addysg yw'r prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg ac ar gyfer creu siaradwyr newydd.
- Fforwm Addysg Cyfrwng Gymraeg – bydd y fforwm yma, ar gyfer y cyfnod rhwng 2017-2020, yn cynnwys Uwch Swyddogion yr Awdurdod sef y Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau, Pennaeth y Gwasanaeth Dysgu, Pennaeth Gwella Ysgolion Ceredigion, Swyddog â chyfrifoldeb am y Gymraeg a Phennaeth Tîm Athrawon Cefnogi'r Gymraeg. Bydd y fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn craffu a monitro â herio unrhyw ddatblygiadau. Bydd cynrychiolwyr o'r fforwm hwn yn eu tro yn rhannu gwybodaeth gyda'r Fforwm Iaith Sirol fydd yn cynnwys cynrychiolwyr posibl o, er enghraifft: Cered, Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Merched y Wawr, Cymraeg i Oedolion, C.Ff.I. Ceredigion, Hyfforddiant Ceredigion, Dysgu Bro, Coleg Ceredigion, Theatr Felinfach, Papurau Bro, Swyddogion Adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cwmni Iaith cyf. Bydd datblygiadau'r CSGA yn cael eu rhannu a'u craffu gan y corff hwn mewn cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn. Bydd Swyddogion yr Awdurdod hefyd yn atebol i Bwyllgor Iaith y Cyngor sy'n cynnwys aelodau etholedig.

2. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan adran 10 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhowch ddatganiad ynghylch hygyrchedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eich awdurdod lleol mewn perthynas â chludiant o'r cartref i'r ysgol. Nodwch unrhyw heriau a/ neu feysydd o arfer da drwy gydweithio.

Wrth i rieni ddewis ysgol i'w plentyn, mae'n ddyletswydd o dan Adran 10 o'r Mesur i hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae adran 6 o'r Mesur yn rhoi grym i awdurdodau lleol ddarparu trefniadau trafnidiaeth i ddysgwyr nad ydynt o reidrwydd yn mynychu eu hysgol agosaf oherwydd dewis iaith.

Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol / Coleg

<https://www.ceredigion.gov.uk/SiteCollectionDocuments/Resident/Schools%20and%20Education/School%20College%20Transport/home-to-school-college-transport-policy-welsh.pdf>

3. Nodwch sut y byddwch yn cyflawni deilliannau 1-7 gan gyfeirio at adran 19 yn y canllawiau am ragor o wybodaeth am beth i'w gynnwys yn yr adrannau isod. Bydd disgwyl i chi **gynnwys data ar ffurf atodiadau** (mae rhestr ar gael yn Atodiad 1) er mwyn cefnogi eich hamcanion.

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Nodwch eich sefyllfa bresennol mewn perthynas â nifer y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'ch targedau ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
<p>Yn 2015-16 roedd 75.4% o ddisgyblion blwyddyn 2 yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngheredigion. Mae hwn yn ffigwr cymharol sefydlog ond yn medru amrywio'n flynyddol o sawl pwynt canran yn unol â maint y mintai.</p> <p>2016/17: 536 disgybl Blwyddyn 2 (allan o 732) mewn addysg cyfrwng Cymraeg</p>	<p>Amrediad o 75 - 80%</p> <p>2017/18: 523 disgybl Blwyddyn 2 (allan o 670) mewn addysg cyfrwng Cymraeg (disgyblion Blwyddyn 1 2016)</p>	<p>Amrediad o 75 - 80%</p> <p>2018/19: 551 disgybl Blwyddyn 2 (allan o 693) mewn addysg cyfrwng Cymraeg (disgyblion Derbyn 2016)</p>	<p>78 - 80%</p> <p>Erbyn 2020 anelir at gynnal a sefydlogi canran y disgyblion 7 oed yng Ngheredigion sy'n derbyn addysg Gymraeg.</p> <p>Targedau diwygiedig</p> <p>78% o ddisgyblion Blwyddyn 1 erbyn 2020 yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg</p> <p>80% o ddisgyblion Blwyddyn 2 erbyn 2020 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</p>

Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).

Y Prif Amcanion (i gyflawni'r deilliant)	Sut mae cyflawni'r amcanion? (Datganiadau Cefnogol)	Cyfrifoldeb a Llinell amser
1.1 Cynyddu y waelodlin uchel bresennol	Yr her bennaf yw cynyddu'r waelodlin uchel bresennol o dros 70% (a hynny yn erbyn targed cenedlaethol o 30% erbyn 2020 ar gyfer yr un deilliant) o ddisgyblion 7 oed mewn addysg Gymraeg.	

	<p><i>Bydd yr awdurdod yn gwneud hyn gyda chymorth partneriaid eraill ac yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r gwerth y mae plant a phobl ifanc, athrawon, llywodraethwyr, rhieni a gofawyr a'r cyhoedd yn ei roi ar y Gymraeg. Byddwn yn canolbwyntio'n fwy ar werth masnachol y Gymraeg yn y farchnad swyddi, y manteision gwybyddol o ddwyieithrwydd a phwysigrwydd y Gymraeg wrth alluogi plant a phobl ifanc i gael dealltwriaeth dda o fywyd diwylliannol Cymru yn y gorffennol a'r presennol.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn cyd-weithio'n agos gyda darparwyr addysg cyn-ysgol e.e. y Mudiad Meithrin, darparwyr gofal plant, gweithwyr iechyd a bydwagedd ayyb er mwyn rhannu gwybodaeth i rieni a darpar rieni am fanteision llawn dwyieithrwydd a chontinwwm ieithyddol. • Byddwn yn sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth cyn-ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg o'r radd flaenaf a bod y plant yn cael profiadau llafar bywiog sy'n sicrhau gafael gynnar ar yr iaith ac yn creu'r galw yn naturiol am addysg Gymraeg. Byddwn yn cyd-weithio gyda darparwyr cyn-ysgol i olrhain dilyniant ieithyddol cyfrwng Cymraeg, yn enwedig yn ardal Aberystwyth. • Gwneir hyn drwy sicrhau bod y swyddogion datblygu perthnasol sy'n ymweld â lleoliadau'r Mudiad Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi, yn hyrwyddo ac yn hyfforddi ar fanteision dwyieithrwydd ac addysg Gymraeg gyda staff a rhieni gan e.e. ddsbarthu diweddariad o lyfryn megis 'Siarad Dwy Iaith – Y Camau Cyntaf at Ddwyieithrwydd', pecyn Addysg Gymraeg LIC i bob rhiant. • Gwneir hyn hefyd drwy rannu gwybodaeth am fanteision y Gymraeg e.e. ar ffurf llyfryn/ taflen (ar sail 	<p>Swyddogion yr Awdurdod Swyddogion MM Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Cered Athrawon Ymgynghorol (parhaus) (Ebrill 2017 ymlaen)</p> <p>Swyddogion MM Athrawon Ymgynghorol y CS (parhaus)</p> <p>Swyddogion yr Awdurdod Cyd-weithio gyda MM (erbyn Medi 2017 ac yna'n barhaus)</p> <p>Swyddogion yr Awdurdod Cyd-weithio gyda MM,</p>	
--	--	--	--

	<p>y Pecyn Cenedlaethol) fydd hefyd yn cyfeirio at wefannau perthnasol (Trydar a 'Facebook') a thrwy gynnal cyfarfodydd targed gan annog egwyddorion 'Symud Ymlaen'.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneir hyn drwy sicrhau bod yr holl bartneriaid o fewn yr awdurdod yn ymwybodol o waith cynllunio a dosbarthu gwybodaeth/ deunydd marchanta i rieni am fanteision dwyieithrwydd a'r continwwm iaith a manteision dysgu, byw a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru. • Bydd yr Awdurdod yn sefydlu tudalen ar wefan y sir sy'n nodi manteision dwyieithrwydd ar y cyd gyda 'Cered'. • Bydd yr Awdurdod hefyd yn sicrhau bod gan deuluoedd fynediad ac ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael ar eu cyfer wrth i'w plant a'u pobl ifanc ddatblygu ar hyd y llwybr/ continwwm iaith. • Byddwn yn annog defnydd pellach o'r Gymraeg yn y sefydliadau nas-gynhelir hynny nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg, a sicrhau bod gwybodaeth am addysg Gymraeg a dilyniant ieithyddol a manteision dwyieithrwydd yn cyrraedd rhieni a darpar rieni yn y sefydliadau hynny hefyd. • Byddwn yn sicrhau bod adroddiadau Hunan Arfarnu/ Cynlluniau Datblygu'r sefydliadau nas-gynhelir yn rhoi lle priodol i'r Gymraeg yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru o ran addysg y Blynyddoedd Cynnar. • Byddwn yn sicrhau y dysgir mathemateg a gwyddoniaeth drwy'r Gymraeg yn 100% o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg erbyn Medi 2018. • Byddwn yn cydweithio gyda 'Cered' i hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg teuluoedd â phlant sy'n symud 	<p>Swyddogion 'Cered', Swyddog Polisi Iaith a Chydraddoldeb, GGD (FIS) ayyb (erbyn Medi 2017 ac yna'n barhaus)</p> <p>Swyddogion yr Awdurdod Swyddogion 'Cered', GGD (FIS)</p> <p>Swyddogion yr Awdurdod a 'Cered', GGD (FIS) (erbyn Medi 2017)</p> <p>fel uchod</p> <p>Swyddogion yr Awdurdod Swyddogion Cefnogi MM, GGD (FIS) (parhaus)</p> <p>Athrawon Ymgynghorol y Cyfnod Sylfaen Swyddogion Cefnogi MM (parhaus)</p> <p>Swyddogion yr Awdurdod</p> <p>Swyddogion 'Cered'</p>	
--	---	--	--

	<p>i Geredigion am fodolaeth y Gymraeg fel iaith gymunedol a rhan y canolfannau iaith wrth hwyluso integreiddio i'r gymuned honno.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd Cymraeg i Oedolion yn cynnig gwersi Cymraeg o'r Crud/ Cymraeg i'r Teulu gan weithredu law yn llaw gyda Cered. • Gwneir hyn drwy ddarparu gwybodaeth yn y 'Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni' am y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sirol sydd ar gael yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 ac am natur ieithyddol pob ysgol. Mae'r wybodaeth hefyd ar gael ar wefan y Cyngor. Defnyddir diffiniadau'r Llywodraeth (yn unol â'r ddogfen 'Diffinio Ysgolion' 2008) i'r perwyl hwn. • Byddwn yn sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o ba ysgolion sy'n cynnig darpariaeth ddwyieithog a'i fanteision wrth i ddisgyblion bontio o'r nas-gynhelir i'r cynradd (ond hefyd o CA2 i CA3) a'u bod hefyd yn hollol ymwybodol o wefannau ac 'apiau' a ffynnonellau eraill amrywiol sy'n hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y cartref ac sy'n gymorth i waith cartref. • Byddwn yn cydweithio gyda'r Mudiad Meithrin a'r swyddog cyfrifol a benodwyd drwy weithredu'n strategol ar y rhaglen 'Cymraeg i Blant' yn y sir. 	<p>(parhaus)</p> <p>Cymraeg i Oedolion/ Cered</p> <p>Swyddogion yr Awdurdod (yn flynyddol)</p> <p>Swyddogion yr Awdurdod (o fis Ebrill 2017 ymlaen gan dargedu rhieni perthnasol sydd a'u plant yn y lleoliadau nas gynhelir , rhieni disgyblion Blwyddyn 4 a 5, targedu rhieni Blwyddyn 6 mewn cylchlythyr/ llyfryn i'w gynnwys gyda gwybodaeth am drosoglwyddo i'r uwchradd (a ddosberthir yn Nhymor yr Hydref yn flynyddol)</p> <p>Swyddogion Cered</p>	
<p>1.2 Bydd y cyngor yn cynllunio ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg yn y sir.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y cynllun yn targedu dilyniant ieithyddol a chynnydd yn y niferoedd y disgyblion mewn addysg Gymraeg dros gyfnod ac mewn gwahanol leoliadau, yn enwedig ble mae'r ganran hynny o ddisgyblion yn is gydag ardal Aberystwyth yn ganolbwynt i'r gweithredu hynny. • Targedir yr ysgolion yn yr ardaloedd canlynol: Ysgol 	<p>Swyddogion yr Awdurdod Gweithredu o dymor yr Hydref 2017 ymlaen</p>	

	<p>Cei Newydd (Aberaeron), Ffrwd Ail Iaith Ysgol Bro Pedr (Llanbedr Pont Steffan), Ysgol Llwyn yr Eos, Ysgol Padarn Sant, Ysgol Plascrug ac Ysgol Comins Coch (Aberystwyth) o ran darpariaeth y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Penodir swyddog ar secondiad blwyddyn i ddechrau yn ei swydd ym mis Medi 2017. Nod penodol y rôl yw targedu cynnydd yn y deiliant hwn drwy gydweithio gyda phenaethiaid, lleoliadau meithrin nas-gynhelir, athrawon y Cyfnod Sylfaen ayyb. • Byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i roi sylw blaenllaw i'r Gymraeg yng nghynlluniau Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Bydd Ysgol Gynradd Dyffryn Cledlyn, Drefach (3-11 oed) yn agor ei drysau ym mis Medi 2017 ac yn ysgol cyfrwng Cymraeg a hynny wedi agoriad Ysgol Bro Teifi (3-19oed) ym mis Medi 2016. Bydd Cynlluniau Band B Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y Sir yn datblygu: 1. Ysgol Uwchradd Aberteifi – adnewyddu/estyniad – Gwella'r defnydd o ynni, bloc dysgu newydd dau lawr yn darparu adeilad STEM ac estyniad i'r brif neuadd er lles yr ysgol a'r gymuned. 2. Ysgol Ardal Dyffryn Aeron – ysgol ardal newydd ar gyfer 201 disgybl sydd yn uno pedair ysgol gynradd yn Nyffryn Aeron ar un safle gan gyflwyno darpariaeth feithrin. Bydd yr ysgol yma eto yn ysgol cyfrwng Cymraeg. 3. Ysgol Gynradd Pontrhydfendigaid - adnewyddu/estyniad – symud adeilad y medrir ei ddatgysylltu. Buddsoddiad mewn ysgol cyfrwng Cymraeg ble mae'r disgyblion yn trosglwyddo'n naturiol, yng nghyfnod allweddol 3, i Ysgol Henry Richard gan barhau gyda'r continiwm iaith. 4. Ysgol Gynradd Aberteifi: adnewyddu/estyniad 		
--	---	--	--

	<p>– estyniad dau lawr gan symud ystafell ddosbarth y medrir ei ddatgysylltu ac hefyd estyniad i neuadd yr ysgol er lles yr ysgol a'r gymuned. Mae Ysgol Gynradd Aberteifi hefyd yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Disgwylir i'r cynlluniau Band B hyn gael eu cymeradwyo erbyn mis Hydref 2017.</p>		
<p>1.3 Sicrhau bod yr iaith lafar (llafaredd) yn cael y sylw angenrheidiol a haeddiannol ymhob sefydliad nas cynhelir a ariennir ac yn ystod cyfnod pob disgybl yn yr ysgol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod cyfoethogi iaith yn rhan greiddiol o fywyd bob dydd yn y sefydliadau yma ac wrth drosglwyddo i'r dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen dilynol yn yr ysgolion. Byddwn yn cyd-weithio gyda 'Dechrau'n Deg' a'r Gwasanaeth Therapyddion Lleferydd er mwyn targedu medrau llafar ymysg disgyblion di-freintiedig. Byddwn yn sicrhau bod y sefydliadau eraill hefyd yn dilyn cynllun 'Joio dan 5' er mwyn targedu brawddegau penodol ar gyfer dysgwyr y continwwm iaith. • Gwneir hyn drwy gydweithio'n effeithiol gyda rhanbarth/ consortiwm ERW i sicrhau datblygiad y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r Awdurdod am barhau i gyd-weithio gyda Sir Powys a Sir Gaerfyrddin yn benodol wrth rannu arferion da o ran datblygu agweddau penodol ar y Gymraeg e.e. gweithredu'r cynlluniau iaith rhanbarthol. • Gwneir hyn drwy gyflwyno'r siarter iaith Gymraeg yn ein hysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gan ddilyn canllaw LIC a amlinellwyd yn y ddogfen 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y camau nesaf (dogfen sy'n amlinellu'r camau nesaf ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017). Bydd y siarter yn weithredol ym mis Medi 2017 yn ein hysgolion cyfrwng 	<p>Athrawon Ymgynghorol y CS Therapyddion Lleferydd Swyddogion Dechrau'n Deg Swyddogion Cefnogi MM</p> <p>Swyddogion yr Awdurdod Cydweithwyr yn siroedd Powys a Sir Gâr Swyddogion Erw (parhaus)</p> <p>Swyddogion yr Awdurdod i gydlynu a threfnu'r cynlluniau gyda'r partneriaid addas (yn barhaus)</p>	

	<p>Cymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwneir hyn drwy sicrhau bod ein hysgolion yn cael y gefnogaeth fydd yn eu galluogi i fanteisio ar, er enghraifft: gwasanaeth y theatr mewn addysg, datblygu gemau buarth, darpariaeth clybiau cyfrwng Cymraeg, sesiynau ymwybyddiaeth iaith ayyb sy'n ymestyn defnydd a chyfoethogi'r iaith lafar mewn chwarae ac yn gymdeithasol. 		
<p>1.4 Erbyn 2020 anelir at weld bod 100% o'r ysgolion cyfnod datblygiadol a'r ysgol ddwy ffrwd yn yr awdurdod yn addysgu 40% neu'n fwy o'r amser yn y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg drwy weithredu pendant ar Siarter Iaith 'Cymraeg Campus' Erw, Cynllun Iaith Powys a dysgu cyfrwng sydd wedi ei dargedu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gwneir hyn drwy sicrhau bod pob ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn cynyddu ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, drwy lunio a monitro cynlluniau gweithredu blynyddol. Gwneir hyn drwy rannu'r arferion gorau sy'n bodoli lle addysgir hyd at 40% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg. Gwneir hyn drwy gydweithio'n effeithiol gyda rhanbarth/ consortiwm ERW i sicrhau datblygiad y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen drwy ddatblygu mentrau megis 'Cymraeg Campus' yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg drwy ymestyn y cynllun peilot presennol i 100% o'r ysgolion perthnasol dros y tair blynedd nesaf. Gwneir hyn drwy dargedu rhieni unigolion/ grwpiau o ddisgyblion sydd yn dangos awydd a gallu yn y Gymraeg ym mlwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn yr ysgolion yma gyda gwybodaeth bellach am addysg cyfrwng Cymraeg, gan annog trosglwyddo i'r ddarpariaeth hwnnw ar ddiwedd Blwyddyn 6. Bydd darparu sesiynau ymwybyddiaeth iaith gyda'r unigolion/ grwpiau o ddysgwyr er mwyn annog a'u cefnogi hefyd yn rhan o'r strategaeth. 	<p>Swyddogion yr Awdurdod Penaethiaid Ysgolion Arweinwyr CS yr ysgolion (yn barhaus)</p> <p>Swyddogion yr Awdurdod Penaethiaid yr ysgolion</p> <p>Swyddogion yr Awdurdod Penaethiaid yr ysgolion Tîm Athrawon Cefnogi'r Gymraeg Amserlen: Mis Medi 2017 gan gyrraedd y nod o bob ysgol yn addysgu 40% erbyn 2020</p> <p>Swyddogion yr Awdurdod Penaethiaid yr ysgolion (Ebrill 2017 ymlaen)</p>	

1.5 Cynyddu nifer y darparwyr gofal plant sy'n nodi eu gwasanaeth fel darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Cymraeg yn bennaf gyda rhywfaint o ddefnydd o'r Saesneg.

- Byddwn yn hyrwyddo'r cyfleuster chwilio gofal plant drwy wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n cynnwys gwybodaeth am ddewis iaith y ddarpariaeth gofal plant, dosbarthiadau Cymraeg ac ati.
- Byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd i weithio ym maes gofal plant a phwysleisio'r pwysigrwydd ar gyfer darparwyr i gynnig gwasanaeth sy'n hyrwyddo eu hunain fel gwasanaeth cyfrwng Cymraeg neu wasanaeth cyfrwng Cymraeg yn bennaf.
- Byddwn yn ymgyrchu i geisio denu siaradwyr Cymraeg i'r maes gweithio fel gofawyr plant. Gwneir hyn drwy dargedu mudiadau Cymraeg megis Merched y Wawr, yr Urdd, Mudiad Meithrin ayyb i gyrraedd siaradwyr Cymraeg.
- Byddwn yn annog darparwyr sy'n nodi eu gwasanaeth fel lleoliad Saesneg neu Saesneg yn bennaf, i ystyried y pwysigrwydd o gyflwyno cyfleon i hybu'r iaith Gymraeg i'r plant o fewn eu lleoliad.
- Cynhelir awdit blynyddol i fonitro sgiliau iaith pob aelod o staff yn y sector gofal plant a chwarae.
- Bydd taflen wybodaeth yn cael ei datblygu i hyrwyddo gwefannau / apps defnyddiol i staff mewn lleoliadau gofal plant.
- Bydd sesiwn ymwybyddiaeth iaith yn cael ei gynnwys fel rhan o'r cwrs gwarchod plant - CYPOP5 ar gyfer siaradwyr Cymraeg a di-gymraeg.
- Datblygir mwy o sachau stori Cymraeg i gael eu defnyddio gyda'r rhwydweithiau gwarchodwyr plant gan weithio gyda'r gwarchodwyr plant i ddatblygu adnoddau priodol eraill.

Rheolwraig Gofal Plant a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Rheolwraig Gofal Plant a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS), MM, Wales PPA, Swyddogion Addysg

- | | | | |
|--|---|--|--|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn monitro a yw'r cyflenwad o ddarpariaeth gofal plant Cymraeg yn cwrdd â'r galw am ddarpariaeth yn y Gymraeg, yn enwedig os yw Ceredigion i ddod yn ardal beilot ar gyfer y cynnig gofal plant 3 a 4 oed. | | |
|--|---|--|--|

Gwybodaeth a Data cefnogol

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer lleoedd i blant 3 oed drwy gyfrwng y Gymraeg fel a ganlyn:
Darpariaeth ar gyfer plant 3 oed mewn ysgolion sef y sector a gynhelir (unedau meithrin): 85% Cymraeg (11uned feithrin) ac 15% Saesneg (2 uned feithrin)
Darpariaeth ar gyfer plant 3 oed sef y sector nas cynhelir (24 o sefydliadau): 87.5% (21 lleoliad) Cymraeg ac 12.5% (3 lleoliad) Saesneg
- Mae'r Awdurdod yn cynllunio i sicrhau bod niferoedd digonol o lefydd ysgol ar gael o fewn y sir. Fodd bynnag, nid oes rhaid i'r awdurdod gynnal asesiad addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â'r gofynion yn 'Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013'. Mae pob ysgol newydd sydd wedi ei chodi neu yn y broses o gael ei chodi yn y sir, yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg i'w disgyblion. Mae effaith ieithyddol a chynnydd y Gymraeg yn bennawd ym mhob un cynllun ar gyfer cynigion Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer Ysgol Bro Teifi, Llandysul (3-19 oed - agor Medi 2016) ac Ysgol Gynradd Wirfoddol Dyffryn Cledlyn, Drefach (3-11 oed – wedi'i hagor ym Medi 2017) wedi cynnwys asesiad effaith manwl ar y Gymraeg a'r gymuned fel rhan o Atodiad D cylchlythyr 006/2013. Mae Ysgol Bro Teifi yn sicrhau dilyniant cyfrwng-Cymraeg sylweddol i ddisgyblion ardal Llandysul ac yn fodd o ddatblygu addysg Gymraeg ymhellach yn un o'i chadarnleoedd a chynyddu niferoedd y siaradwyr yn yr ardal. Mae Ysgol Henry Richard (3-16oed) hefyd yn ysgol ble bydd un campws, yn y pendraw, yn hwyluso'r parhad ieithyddol o'r cynradd i'r uwchradd a hynny o fis Ionawr 2018 ymlaen. Yn ogystal â hyn, mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb corfforaethol wedi bod yn sail i'w llunio, sydd eto yn cynnwys asesiad effaith ar y Gymraeg. Mae'r asesiad hwn yn dod i'r casgliad mai cadarnhaol fydd effaith y ddwy ysgol newydd ar y Gymraeg. Y prif ffactor am hyn yw bod y ddwy yn cynyddu'r ddarpariaeth i 3 oed, ac nid 4 fel a geir yn y sefydliadau ar hyn o bryd. Bydd y ddarpariaeth 3 oed ar gael yn gyfan gwbl yn y Gymraeg; gan ddileu'r angen i rieni ddewis darpariaeth 3 oed ddwyieithog mewn siroedd cyfagos. Ers 2010 adeiladwyd ysgolion cynradd Ysgol Bro Siôn Cwilt (2010) ac Ysgol T Llew Jones (2012) gyda'r ddwy yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Ceir mynediad i ganolfannau trochi i hwyrdyffodiaid BI2-6 mewn dau leoliad yn y sir sef Canolfan y Castell (Aberteifi) a Chanolfan y Felin (Felinfach). Mae darpariaeth y sir ar gyfer hwyrdyffodiaid ar darged. Mae hwn yn ddarpariaeth arbennig i

ddisgyblion sydd wedi symud i mewn i'r ardal yn ddiweddar ac yn cael ei gynllunio yn ôl yr angen e.e. bu i Ganolfan Iaith Aberystwyth agor am dymor yn ystod 2015-16 i gwrdd â'r angen yng ngogledd y sir ac mae'r ganolfan yn Ysgol Henry Richard yn diwallu anghenion uwchradd ar hyn o bryd.

- **Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg (CC)** - Mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2. Caiff Saesneg ei gyflwyno yn ffurfiol fel pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae 36 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn y sir. Mae 15 o'r rhain naill ai wedi eu ffedereiddio neu mewn ffederaliaeth feddal. Ceir tair ysgol lle addysgir y disgyblion oed cynradd mewn ysgolion oed cymysg megis Ysgol Bro Teifi (3-19 oed), Ysgol Bro Pedr (ysgol ddwy ffrwd ac sy'n ysgol 3-19 oed) ac Ysgol Henry Richard (3-16 oed). Mae 5 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg yn y sir. Nid oes datblygiadau economaidd/ tai arwyddocaol eu maint o fewn yr awdurdod ac felly nid yw cytundebau 106 y gellir eu defnyddio ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi bod yn berthnasol.
- Mae'r Gwasanaeth Gofal Plant a Gwybodaeth i Deuluoedd yn dechrau (Medi 2016) ar y broses o ymgynghori ar gyfer yr Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant nesaf 2017 - 2022. Bydd holiadur rhieni yn mynd yn fyw ar y we (Medi 2016) yn gofyn am farn rhieni ar y datganiad: 'A oes digon o ofal plant darpariaeth Cymraeg ar gael yn y sir?' Bydd swyddogion hefyd yn ymweld â gwahanol grwpiau yn ystod y tymor i ymgynghori wyneb yn wyneb. Bydd canlyniadau'r ymgynghori yn bwydo mewn i gynllun gweithredu 5 mlynedd yr 'Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant' nesaf gan ymateb yn ymarferol a phriodol os yw'r canfyddiadau yn dangos bod angen targedu mwy o ddarpariaeth Cymraeg. Bydd canlyniadau'r aseiad a'r cynllun gweithredu'n cael eu hadlewyrchu yn y CSGA wrth iddo ddatblygu rhwng nawr hyd 2020.

Deilliant 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Nodwch eich sefyllfa bresennol a thargedau ar gyfer y tair blynedd nesaf, sy'n ymwneud â nifer y dysgwyr blwyddyn naw sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg (Iaith Gyntaf)

Roedd 64.3% o holl ddisgyblion Blwyddyn 9 y sir wedi eu hasesu (Asesiad Athro) yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf) ar ddiwedd CA3 yn 2016.

Sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
64.3% (2015/2016)	66%	68%	70%

Mae protocol dilyniant CA2/ 3 yn ei le er 2010. Mae'n gosod trefn strwythuredig a diamwys o ran trosglwyddo ieithyddol.

Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).

Y Prif Amcanion (i gyflawni'r deilliant)	Sut mae cyflawni'r amcanion? (Datganiadau Cefnogol)	Cyfrifoldeb a Llinell amser
2.1 Cadarnhau dealltwriaeth pob ysgol uwchradd o'r protocol iaith.	<ul style="list-style-type: none"> Bydd yr Awdurdod yn parhau i gadarnhau dealltwriaeth pob ysgol uwchradd o'r protocol yn flynyddol mewn cyfarfod penaethiaid uwchradd gan sicrhau y bydd disgyblion yn parhau i ddilyn dilyniant iaith gyntaf wrth drosglwyddo i CA3. Byddwn yn parhau i gefnogi grwpiau ffocws CA3 uwchradd a sicrhau'r nod bod y nifer o ddisgyblion sy'n cael eu hasesu ar ddiwedd CA3 yn y Gymraeg fel pwnc (Iaith Gyntaf) yn cyfateb i'r nifer gafodd eu hasesu ar ddiwedd CA2 yn flaenorol. 	<p>Cyfarfodydd Tymhorol Penaethiaid Uwchradd</p> <p>Penaethiaid Adrannau'r Gymraeg</p>
2.2 Sicrhau bod iaith lafar disgyblion yn cael ei datblygu'n llawn.	<ul style="list-style-type: none"> Byddwn yn sicrhau sylw pellach i waith llafar ar draws pob cyfnod er mwyn cyfoethogi iaith ac er mwyn hyrwyddo rhuglder. Bydd yr awdurdod yn monitro ymhellach y sylw y caiff medrau llafar y Gymraeg yng nghynlluniau'r ysgolion a hynny ar bob lefel (CDY, 	<p>Bwydlen HMS 2017-18</p> <p>Tim Athrawon Cefnogi'r Gymraeg Ymgynghorwyr Her</p>

	Cynlluniau Adrannol, Cynlluniau Athrawon ayyb) o fis Medi 2017 ymlaen. Mae angen sylw i lafaredd ffurfiol ac anffurfiol yn benodol ym mwydlen HMS yr Awdurdod o fis Medi 2017 ymlaen.	Penaethiaid Penaethiaid Adrannau/ Cyfnodau	
2.3 Parhau i dracio a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r lleoliadau cyn ysgol/ nas gynhelir i'r ysgolion cynradd.	<ul style="list-style-type: none"> • Gwneir hyn yn unol â systemau'r awdurdod a thargedu achosion o ddiffyg dilyniant os yn codi. Byddwn yn parhau gyda'r cyswllt tymhorol gyda MM i sicrhau bod y data trosglwyddo cyn ysgol i'r Cyfnod Sylfaen yn adlewyrchiad cywir. • Byddwn hefyd yn tracio trosglwyddiad plant o feithrinfeydd nad ydynt yn rhan o drefn y MM. Byddwn yn darganfod pa ddisgyblion o'r lleoliadau hyn sy'n trosglwyddo i ysgol/ ffrwd cyfrwng Cymraeg a pha rai sy'n trosglwyddo i ysgol/ ffrwd cyfrwng Saesneg. Targedir rhieni i ystyried cynnig addysg Gymraeg i'w plant. Yn benodol byddwn yn targedu Meithrinfa Plas Gogerddan, Mês Bach, Padarn Sant (sydd oll yng nghylch Aberystwyth) a Chylch Chwarae Aberporth (CDCC/ WPPA). 	Swyddogion MM Athrawon Ymgynghorol y Cyfnod Sylfaen	
2.4 Targedu unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn gynnar mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg er mwyn hyrwyddo trosglwyddiad i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> • Gwneir hyn drwy dargedu'r disgyblion a'r rhieni drwy rannu gwybodaeth am bwysigrwydd y continwmm iaith e.e. drwy gyd-weithio gyda phenaethiaid yr ysgolion cynradd, codi ymwybyddiaeth, cynnal cyfarfodydd, defnyddio egwyddorion y DVD 'Symud Ymlaen' ayyb. • Gwneir hyn drwy dargedu unigolion/ grwpiau o ddisgyblion (a'u rhieni) sydd yn llwyddo i gyflawni yn y Gymraeg yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg (yn bennaf) a'u hannog i barhau gyda'r continwmm iaith. • Gwneir hyn drwy sicrhau rhannu arferion da rhwng ysgolion ar hybu dilyniant ieithyddol CA2-CA3. • Penodir swyddog ar secondiad blwyddyn i ddechrau 	Penaethiaid Ysgolion Cynradd Swyddogion Her Athrawon Ymgynghorol a'r tîm ACG Athrawon Arfer Da a Rhagorol Medi 2017	

	<p>yn ei swydd ym mis Medi 2017. Nod penodol y rôl yw targedu cynnydd yn y deiliant hwn drwy gydweithio gyda phenaethiaid, lleoliadau meithrin nas-gynhelir, athrawon y Cyfnod Sylfaen ac ysgolion uwchradd ayyb.</p>		
<p>2.5 Sicrhau bod oleiaf 70% o'r Cwricwlwm yn CA2 a CA3 yn gyfrwng Cymraeg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwneir hyn drwy sicrhau bod pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn astudio o leiaf 70% o'r cwricwlwm CA2 drwy gyfrwng y Gymraeg. • Gwneir hyn drwy sicrhau bod 100% o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg cynradd yn addysgu mathemateg a gwyddoniaeth yn y Gymraeg erbyn Medi 2018. • Yn y sector uwchradd cyfrwng Cymraeg/ dwyieithog, byddwn yn sicrhau <i>bod pob dosbarth cyfrwng Cymraeg yn CA3</i> yn astudio o leiaf 70% o'u cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg. • Bydd y ganran sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc ar ddiwedd CA3 yn cyfateb i'r nifer gafodd eu hasesu ar ddiwedd CA2 yn flaenorol. • Gwneir hyn drwy fonitro effaith y cynlluniau iaith sirol ar allu llafar, darllen ac ysgrifennu'r disgyblion. • Gwneir hyn drwy barhau i gynnig mentrau i hyrwyddo Cymreictod a sicrhau bod y Gymraeg i'w gweld yn ddefnyddiol, bywiog a pherthnasol e.e. drwy TGCh, apiau, ymwybyddiaeth iaith (mewn sesiynau ABCh), Sgwadiu Serennu (llafar ac ysgrifennu), iaith a drama, gemau buarth a thrwy fentrau sy'n annog siarad y Gymraeg yn hyderus a rhugl. 	<p>Penaethiaid Cynradd</p> <p>Penaethiaid Uwchradd</p> <p>Penaethiaid Adran</p> <p>Athro Ymgynghorol TGCh</p> <p>Monitro Gweithrediad y Protocol Iaith – dadansoddiad data Ionawr 2018</p> <p>Tîm ACG Cered</p>	
<p>2.6 Yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg mae angen sicrhau bod o leiaf 30 – 40% o'r ddarpariaeth yn CA2 erbyn 2020 yn y Gymraeg,</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwneir hyn drwy ledaenu arferion 'Cymraeg Campus' (Siarter Iaith) i bob ysgol gynradd cyfrwng Saesneg gan gynyddu'r ganran o'r cwricwlwm a ddysgir yn y CS a CA2 drwy gyfrwng y Gymraeg. 	<p>Tîm ACG</p> <p>Penaethiaid</p>	

<p>gyda phwyslais eto ar ddatblygu medrau llafar a sgwrs. Gosodir targedau ar gyfer yr ysgolion unigol i weld cynnydd o'r waelodlin a welir yn y data (yn sgil awdit) ym mis Medi 2017. Disgwylir y bydd pob ysgol yn creu cofnod yn eu CDY sy'n dangos sut mae cyrraedd y targed hwnnw.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwneir hyn drwy barhau i ddefnyddio Cynllun Iaith Powys fel sail i'r continwmm iaith ac fel modd o roi cysondeb i'r ddarpariaeth. • Gwneir hyn drwy gynnig pecynnau adnoddau i'r ysgolion hynny er mwyn hyrwyddo pellach ar y Gymraeg fel cyfrwng dysgu ar draws y cwricwlwm. • Gwneir hyn drwy gynorthwyo'r ysgolion uwchradd hefyd i wreiddio'r prosiect 'Cefnogi Arferion Iaith Pobl Ifanc'. 	<p>Cynradd</p> <p>Penaethiaid Adran y Gymraeg</p>	
<p>2.7 Mae angen gweithredu pellach er mwyn cael gwell dilyniant ieithyddol wrth i ddisgyblion ddewis eu pynciau ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 sydd â goblygiadau wedyn ar ddewisiadau ym mlwyddyn 12 ac 13 (gweler tabl data CA3 – CA4 isod)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwneir hyn drwy gyd-weithio gyda phenaethiaid a phenaethiaid adrannau yr ysgolion uwchradd i weld cynllunio pellach ar gyfer cyflwyno mwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler Deilliannau 3 a 4 am fanylion pellach). • Byddwn yn gwneud hyn drwy gyd-weithio gyda swyddogion o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol drwy gyflwyno cyfres o wersi ABCh sydd wedi eu paratoi ar gyfer blynyddoedd 8, 9 a 10 ar fanteision addysg Gymraeg gan roi ystyriaeth benodol i'r ffaith bod disgyblion Blwyddyn 9 a'u dewisiadau yn drobwynt o ran TGAU ac felly'r llwybr lefel A cyfrwng Cymraeg hefyd. 	<p>Penaethiaid Uwchradd</p> <p>Penaethiaid Adran</p>	

Gwybodaeth a Data cefnogol

- Mae cyfraddau dilyniant rhwng sefydliadau nas cynhelir a'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol dda. Yn Nhymor yr Haf 2016 roedd 29 lleoliad nas-gynhelir yng Ngheredigion. Roedd 24 (83%) ohonynt yn leoliadau cyfrwng Cymraeg. Bydd cydweithio rhwng athrawon ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar/ Cyfnod Sylfaen a swyddogion y Mudiad Meithrin yn parhau er mwyn sicrhau cywirdeb yn y data trosglwyddo o'r sector cyn ysgol i'r ysgol gynradd. Mae canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg o'r lleoliadau nas-gynhelir cyfrwng Cymraeg yn 100%.
- Mae'r gyfradd drosglwyddo cyfrwng Cymraeg (2016) rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3 yn 88% (432/ 491 disgybl) h.y. y disgyblion hynny oedd yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg cynradd yn y sir ac aeth ymlaen i'r sector uwchradd cyfrwng

Cymraeg/ Dwyieithog.

- Bu datblygiadau cadarnhaol yn y sector uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf o safbwynt y Gymraeg. Bellach mae agweddau ar dri phwnc ar gael yn y Gymraeg/ dwyieithog i ddysgwyr Penglais yng Nghyfnod Allweddol 3. Byddwn yn parhau i geisio gwreiddio a datblygu ymhellach ar y ddarpariaeth dwyieithog sydd yng nghyfnod allweddol 3 yn y sector uwchradd cyfrwng Saesneg.
- Data cyfraddau dilyniant y lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y sector nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/ dwyieithog yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen (gweler isod):

Data dilyniant pob Cylch Meithrin (2015-16)

2015-16				
Sir	Enw Cylch	Nifer Trosglwyddodd i Addysg Gymraeg	% Trosglwyddodd i Addysg Gymraeg	Nodiadau
Ceredigion De	ABERBANC	12	100.00%	
Ceredigion De	FFRINDIAU BACH TEGRYN (ABERPORTH)	14	100.00%	
Ceredigion De	ABERTEIFI	55	100.00%	
Ceredigion De	BEULAH	5	100.00%	
Ceredigion De	BRO SION CWILT	2	100.00%	
Ceredigion De	CEI NEWYDD	12	100.00%	
Ceredigion De	CLETTWR	9	100.00%	
Ceredigion De	GWENOG	15	100.00%	
Ceredigion De	LLANARTH	10	100.00%	
Ceredigion De	LLANDYSUL	31	100.00%	
Ceredigion De	LLECHRYD	9	100.00%	
Ceredigion De	PENPARC	11	100.00%	
Ceredigion De	TALGARREG	9	100.00%	
Ceredigion De	TEIFI ADPAR	20	100.00%	
Ceredigion De	Y LLEWOD BACH	7	100.00%	
Ceredigion Gogledd	YNYS Y PLANT, FEUNFACH	11	100.00%	
Ceredigion Gogledd	ABERYSTWYTH	21	91.30%	
Ceredigion Gogledd	CLWB CYWION AERON	15	100.00%	
Ceredigion Gogledd	GLAN Y MOR	14	100.00%	
Ceredigion Gogledd	LLANFARIAN	7	100.00%	
Ceredigion Gogledd	LLANGEITHO	8	100.00%	
Ceredigion Gogledd	LLANGWYRYFON	4	100.00%	
Ceredigion Gogledd	LLANILAR	10	100.00%	
Ceredigion Gogledd	PENLLWYN	9	100.00%	
Ceredigion Gogledd	PONTRHYDFENDIGSAID	16	100.00%	
Ceredigion Gogledd	RHYDYFENNAU	16	100.00%	
Ceredigion Gogledd	TAL Y BONT	14	100.00%	
Ceredigion Gogledd	TREFEURIG	11	91.67%	
Ceredigion Gogledd	TREGARON	17	100.00%	
Ceredigion Gogledd	Y BORTH	10	100.00%	

Enw'r lleoliad nas cynhelir a gyllidir (Cylch Meithrin)	Nifer o lefydd ar gael	Nifer o blant sy'n mynychu (Tymor yr Haf 2016)	Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion Cymraeg a dwyieithog
Cylch Meithrin Aber-banc (cau Haf 2016)	16	6	100%
Cylch Meithrin Aber-porth	10	10	100%
Cylch Meithrin Cei Newydd	20	13	100%
Cylch Meithrin Clettwr (cau Haf 2016)	10	0	100%
Cylch Meithrin Gwennog	12	9	100%
Cylch Meithrin Llanarth	18	9	100%
Cylch Meithrin Llandysul (cau Haf 2016)	32	20	100%
Cylch Meithrin Llechryd	10	9	100%
Cylch Meithrin Penparc	19	14	100%
Cylch Meithrin Talgarreg	10	10	100%
Cylch Meithrin Felin-fach	12	17	100%
Cylch Meithrin Camau Bach (Aberystwyth)	20	8	100%
Cylch Meithrin Glan y Môr	15	12	100%
Cylch Meithrin Llanfarian	18	5	100%
Cylch Meithrin Llangeitho	10	7	100%
Cylch Meithrin Llangwryfon	10	6	100%
Cylch Meithrin Llanilar	10	16	100%
Cylch Meithrin Penllwyn	16	13	100%
Cylch Meithrin	10	12	100%

Pontrhydfendigaid			
Cylch Meithrin Talybont	16	9	100%
Cylch Meithrin Trefeurig	10	9	100%
Cylch Meithrin Tregaron	17	13	100%
Cylch Meithrin Borth	15	9	100%
Meithrinfa Penglais (cau Haf 2016) (Dwyieithog)	10	7	100%
Plas Gogerddan (Dwyieithog)	20	18	100%
Mes Bach (Dwyieithog)	20	13	100%
Padarn Sant (Dwyieithog)	30	14	100%
Aberporth Bilingual Playgroup (Dwyieithog)	20	9	100%

- *Data cyfraddau dilyniant lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y sector nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed a lleoliadau nas cynhelir a gyllidir yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen: ddim yn berthnasol.*
- *Data cyfraddau dilyniant lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog: mae hwn yn 100%.*
- *Data cyfraddau dilyniant lleoliadau gofal plant nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed a lleoliadau nas cynhelir cyfrwng Cymraeg a gyllidir yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ac wedyn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog: ddim yn berthnasol.*
- *Data cyfraddau dilyniant rhwng y Cyfnod Sylfaen a CA2 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg: 100%.*
- *Data cyfraddau dilyniant rhwng CA2 a CA3 o ran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ym mlwyddyn 6 (2013) ac ym mlwyddyn 9 (2016):* O ddisgyblion BI6 2013 a gafodd eu hasesu yn y Gymraeg (sef 71.6% o holl ddisgyblion y sir), cafodd 64.3% ohonynt eu hasesu yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3 (BI9) yn 2016 (h.y. y disgyblion hynny fu yn ysgolion cynradd Ceredigion yn unig). Mae'r ganran a asesir yn flynyddol ar ddiwedd CA2 ar draws y sir yn cynnwys nifer o hwyrddyfodiaid sy'n cael eu hasesu'n statudol yn unol â'r rhaglen astudio Cymraeg iaith gyntaf er nad ydynt wedi mynychu'r ysgolion am gyfnodau hir. Nid yw'r mintai yma o ddisgyblion bob tro yn parhau gyda chwrs mamiaith ac felly nid ydynt yn ymddangos wedyn yn y fintai uwchradd. Gall hyn fod hyd at 5% o wahaniaeth.
- *Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn Haf 2015 am % pynciau cyfrwng Cymraeg CA3 pob ysgol yn dangos y canlyniadau canlynol. Mae pob ysgol (onibai am Ysgol Penglais) yn cynnwys o leiaf 62% o ddisgyblion CA3 sy'n dilyn 6 phwnc neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg.*

CATEGORïAU YSGOLION UWCHRADD

Mae'r categori hwn wedi ei rannu'n 4 is-adran yn ôl canran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a chan ddibynnu a yw'n cynnig yr un ddarpariaeth yn Saesneg. Nid yw'r categorïau a'r diffiniadau yn adlewyrchu nifer neu gyfran y disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn Ysgol.

Ysgol Uwchradd Ddwyieithog – Categori 2A (ADd) – Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall. *Mae Ysgol Bro Teifi ac Ysgol Penweddig yn y categori hwn.*

Ysgol Uwchradd Ddwyieithog – Categori 2B (BDd) – Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd. *Mae Ysgol Bro Pedr ac Ysgol Henry Richard yn y categori hwn.*

Ysgol Uwchradd Ddwyieithog – Categori 2C (CDd) – Addysgir 50 i 79% o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Mae Ysgol Aberteifi ac Ysgol Aberaeron yn y categori hwn.

Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg Yn Bennaf (CS) – Addysgir y disgyblion yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith hyd at Gyfnod Allweddol 4. Mae'n bosibl y gellir dewis dysgu un neu ddau bwnc (a allai gynnwys y Gymraeg fel iaith gyntaf) drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y naill iaith neu'r llall.

Mae Ysgol Penglais yn y categori hwn.

- *Data i ddangos nifer y disgyblion sydd yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg a faint ohonynt sydd yn y ffrwd cyfrwng Saesneg yn ysgolion uwchradd yr awdurdod fesul pob cyfnod allweddol:*

Ysgolion Uwchradd (data 2016)	CA3		CA4	
	Cymraeg	Saesneg	Cymraeg	Saesneg
Aberaeron	217	48	132	38
Aberteifi	218	90	110	71
<i>Penglais</i>	<i>162</i>	<i>416</i>	<i>104</i>	<i>280</i>
<i>Penweddig</i>	<i>271</i>	<i>0</i>	<i>190</i>	<i>0</i>
Bro Pedr	239	101	152	71
Henry Richard	101	7	57	10
<i>Bro Teifi (Dyffryn Teifi gynt)</i>	<i>219</i>	<i>0</i>	<i>137</i>	<i>0</i>

- *Data cyfraddau dilyniant rhwng CA3 a CA4:*

Y ganran o ddisgyblion yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a astudiodd y Gymraeg Iaith Gyntaf fel TGAU yn 2016 oedd 97.8%.

- Data i ddangos dilyniant dysgu pynciol trwy gyfrwng y Gymraeg fesul ysgol ar gyfer CA4 (gwybodaeth 2015):

	Cohort Cymraeg	% astudio pynciau Cymraeg eraill	
		2+	5+
4042 Aberaeron	78	3.8	0.0
4044 Aberteifi	41	4.9	0.0
4047 Penglais	49	0.0	0.0
4048 Penweddig	83	89.2	32.5
4059 Dyffryn Teifi	84	91.7	46.4
5500 Bro Pedr	67	38.8	1.5
5501 Henry Richard	46	41.3	8.7
Ceredigion	448	44.9	15.8

- Data i ddangos dilyniant dysgu pynciol trwy gyfrwng y Gymraeg fesul ysgol ar gyfer CA4 (gwybodaeth 2016):

Astudio pynciau CA4 trwy'r Gymraeg: 2015/16

Canrannau wedi eu cyfrifo o'r cohortau a astudiodd Cymraeg Iaith Gyntaf

	Math o ysgol	Pynciau CA4 eraill yn y Gymraeg			Cohort		
		2+	3+	5+	Llawn	CYM	%
Aberaeron	CB	11.9	0.0	0.0	93	67	72.0
Aberteifi	CB	2.3	2.3	0.0	82	43	52.4
Penglais	EM	0.0	0.0	0.0	194	53	27.3
Penweddig	AB	84.5	67.0	27.8	98	97	99.0
Bro Pedr	BB	50.0	32.4	1.5	119	68	57.1
Henry Richard	BB	57.1	39.3	7.1	32	28	87.5
Bro Teifi	AB	93.8	86.2	69.2	65	65	100.0

2 TGAU neu'n fwy cyfrwng Cymraeg: 49.9% (gwybodaeth 2015/2016). Roedd yn 44.9% yn 2014/15.

5 TGAU neu'n fwy cyfrwng Cymraeg: 17.6% (gwybodaeth 2015/2016). Roedd yn 15.8% yn 2014/15.

- Data i ddangos canran y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion uwchradd Ceredigion (gwybodaeth Medi 2016):

Enw'r Ysgol	Nifer y disgyblion Blwyddyn 12 Medi 2016	Nifer y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg (gan gynnwys y Fagloriaeth a'r Gymraeg fel pwnc).	Nifer y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau yn ddwyieithog (elfennau o'r cwrs) gan gynnwys y Fagloriaeth
Ysgol Uwchradd Aberaeron	64	6	0
Ysgol Bro Teifi	44	44	0
Ysgol Uwchradd Aberteifi	53	5	0
Ysgol Uwchradd Penweddig	71	52	18
Ysgol Bro Pedr	74	8	12

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg**Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg**

Nodwch eich sefyllfa bresennol a thargedau sy'n ymwneud â chanran y dysgwyr sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Yn 2014/2015 roedd 44.9% o gofrestriadau ar gyfer TGAU Cymraeg laith Gyntaf wedi sefyll o leiaf dau bwnc arall drwy gyfrwng y Gymraeg	50%	55%	58%
Yn 2015/2016 roedd 49.9% o gofrestriadau ar gyfer TGAU Cymraeg laith Gyntaf wedi sefyll o leiaf dau bwnc arall drwy gyfrwng y Gymraeg			

Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).

1. Sicrhau bod disgyblion sydd yn sefyll arholiad TGAU laith Gyntaf yn astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. O fis Medi 2017 ymlaen trefnwyd secondiad 0.4 i arbenigwr ar y fagloriaeth gyda'r nod bendant o hyrwyddo a chynyddu niferoedd y disgyblion sy'n gwneud y fagloriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Sicrhau gwell gwybodaeth gyrfaol i ddisgyblion ynghylch manteision astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
3. Sicrhau hyfforddiant ac adnoddau addas i athrawon sydd yn cynnig pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfochrog yn yr un dosbarthiadau

4. Sicrhau bod dosraniad Grant y Gymraeg mewn Addysg yn cefnogi'r flaenoriaeth hon drwy dargedu ysgolion ac adrannau yn fwy penodol

Y Prif Amcanion (i gyflawni'r deilliant)	Sut mae cyflawni'r amcanion? (Datganiadau Cefnogol)	Cyfrifoldeb a Llinell amser
1. Sicrhau bod disgyblion sydd yn sefyll arholiad TGAU Iaith Gyntaf yn astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg	<ul style="list-style-type: none"> • Cydlynnydd y Fagloriaeth yn yr ALI yn rhoi mewnbwn i gyd-lynwyr y Fagloriaeth ym mhob ysgol ar fanteision addysg Gymraeg • Llunio cynllun gwaith ac adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer y Fagloriaeth • Gwirio ddwy waith y flwyddyn (blwyddyn 10 ac 11) ar niferodd y Fagloriaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob ysgol • Cydweithio ag asiantaethau allanol priodol megis yr Urdd i ddiwallu profiadau'r Fagloriaeth yn y Gymraeg e.e gwirfoddoli mewn clybiau 	Athro ymgynghorol â chyfrifoldeb am y Fagloriaeth
2. Sicrhau gwell gwybodaeth gyrfaoel i ddisgyblion ynghylch manteision astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod gyda chyd-lynwyr gyrfaoedd pob ysgol uwchradd ynghylch marchnata manteision dewisiadau opsiwn Cymraeg ar ddiwedd blwyddyn 9 • Cered / asiantaethau allanol priodol i fynychu nosweithiau opsiynau blwyddyn 9 er mwyn trafod gyda rhieni • Sicrhau bod datganiad am bwysigrwydd dwyieithrwydd yn llyfryn opsiynau pob ysgol uwchradd 	Penaethiaid uwchradd Cered
3. Sicrhau hyfforddiant i athrawon sydd yn cynnig pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfochrog yn yr un dosbarthiadau	<ul style="list-style-type: none"> • Awdit blynyddol bob Haf o nifer o ddsbarthiadau dwyieithog TGAU a fydd yn rhedeg mewn ysgolion • Cefnogaeth i'r athrawon wrth baratoi ac wrth ddatblygu methodoleg addysgu dwy iaith yn gyfochrog trwy bartneriaid allanol megis 'Sgiliaith' 	Athro ymgynghorol Llythrennedd
4. Sicrhau bod dosraniad Grant y Gymraeg mewn Addysg yn	<ul style="list-style-type: none"> • Ail edrych ar fformiwla ariannu ysgolion uwchradd yn unol â phynciau cyfrwng Cymraeg 	Swyddog arweiniol Grant Gwella Addysg

cefnogi'r flaenoriaeth hon drwy dargedu ysgolion ac adrannau yn fwy penodol

- Dosbarthu Grant y Gymraeg Mewn Addysg er mwyn ffocysu ar ysgolion ble mae angen twf mewn niferoedd sydd yn dewis TGAU cyfrwng Cymraeg. Gosod targedau fesul ysgol ar gyfer y twf hwnnw gan weld dilyniant ieithyddol cadarnach mewn pynciau/ meysydd arbennig.

Nodwch eich sefyllfa bresennol a thargedau sy'n ymwneud â chanran y dysgwyr sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg

Sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Yn 2015 roedd 15.8% o gofrestriadau ar gyfer TGAU Cymraeg laith Gyntaf wedi sefyll o leiaf pum pwnc arall drwy gyfrwng y Gymraeg	18%	20%	22%
Yn 2015/2016 roedd 17.6% o gofrestriadau ar gyfer TGAU Cymraeg laith Gyntaf wedi sefyll o leiaf pum pwnc arall drwy gyfrwng y Gymraeg			

Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).

1. Sicrhau bod disgyblion sydd wedi sefyll arholiad TGAU laith Gyntaf ym mlwyddyn 11 yn astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg ym mlynnyddoedd 12 a 13
2. Cynyddu'r niferoedd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mlynnyddoedd 12 a 13 drwy sicrhau gwell gwybodaeth gyrfaoi i ddisgyblion ynghylch manteision astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

3. Sicrhau hyfforddiant i athrawon sydd yn cynnig pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfochrog yn yr un dosbarthiadau ôl 16
4. Sicrhau bod dosraniad Grant y Gymraeg mewn Addysg yn cefnogi'r flaenoriaeth hon drwy dargedu ysgolion ac adrannau yn fwy penodol

Datganiad cefnogol

Y Prif Amcanion (i gyflawni'r deilliant)	Sut mae cyflawni'r amcanion? (Datganiadau Cefnogol)	Cyfrifoldeb a Llinell amser
<p>1. Sicrhau bod disgyblion sydd wedi sefyll arholiad TGAU Iaith Gyntaf ym mlwyddyn 11 yn astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg ym mlynnyddoedd 12 a 13</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cydlynnydd y Fagloriaeth yn yr ALI yn rhoi mewnbwn i gyd-lynwyr y Fagloriaeth ym mhob ysgol ar fanteision addysg Gymraeg • Llunio cynllun gwaith a defnyddio'r adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd wedi eu creu ar gyfer dysgu'r Fagloriaeth (ERW-HWB) • Gwirio ddwy waith y flwyddyn (blwyddyn 12 ac 13) ar niferoedd y Fagloriaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob ysgol • Cydweithio ag asiantaethau allanol priodol megis yr Urdd, Cered, Gyrfa Cymru i ddiwallu profiadau'r Fagloriaeth yn y Gymraeg e.e gwirfoddoli mewn clybiau 	<p>Athro ymgynghorol â chyfrifoldeb am y Fagloriaeth</p>
<p>2. Cynyddu'r niferoedd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mlynnyddoedd 12 a 13 drwy sicrhau gwell gwybodaeth gyfaol i ddisgyblion ynghylch manteision astudio drwy gyfrwng y Gymraeg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod gyda chyd-lynwyr gyrfaoedd pob ysgol uwchradd ynghylch marchnata manteision dewisiadau opsiwn Cymraeg ar ddiwedd blwyddyn 11 • Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu bartneriaid/ asiantaethau priodol i fynychu nosweithiau opsiynau blwyddyn 11 er mwyn trafod gyda rhieni • Sicrhau bod datganiad am bwysigrwydd dwyieithrwydd yn llyfryn opsiynau pob ysgol uwchradd 	<p>Penaethiaid uwchradd</p>

<p>3. Sicrhau hyfforddiant i athrawon sydd yn cynnig pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfochrog yn yr un dosbarthiadau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Awdit blynyddol bob Haf o nifer o ddsbarthiadau dwyieithog Safon Uwch a fydd yn rhedeg mewn ysgolion • Cefnogaeth i'r athrawon wrth baratoi ac wrth ddatblygu methodoleg addysgu dwy iaith yn gyfochrog 	<p>Athro ymgynghorol Llythrennedd</p>
<p>4. Sicrhau bod dosraniad Grant y Gymraeg mewn Addysg yn cefnogi'r flaenoriaeth hon drwy dargedu ysgolion ac adrannau yn fwy penodol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ail edrych ar fformiwla ariannu ysgolion uwchradd yn unol â phynciau cyfrwng Cymraeg • Dosbarthu Grant y Gymraeg Mewn Addysg er mwyn ffocysu ar ysgolion ble mae angen twf mewn niferoedd sydd yn dewis Safon Uwch cyfrwng Cymraeg. Gosod targedau fesul ysgol ar gyfer y twf hwnnw 	<p>Swyddog arweiniol Grant Gwella Addysg</p>


Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion

Nid yw'r ddogfen isod ar gael yn Gymraeg (Gwaith Ieuenctid yng Nghymru 2015-16)

Manylion ieithyddol staff y Gwasanaeth Ieuenctid (Ebrill 2017):

- Pennaeth Ymgysylltu Ieuenctid ac Addysg Barhaus – Iaith Gyntaf
 - Prif Swyddog Ieuenctid (dros dro) x 2 – Iaith Gyntaf
 - Swyddog Gweinyddol - Iaith Gyntaf
 - Gweithwyr Ieuenctid mewn Ysgolion x 4 – Iaith Gyntaf
 - Swyddog Allgymorth – 1 Iaith Gyntaf, 1 yn dysgu Cymraeg
 - Swyddog Allgymorth a Chymunedol – Iaith Gyntaf
 - Swyddog Hyfforddiant ac Achredu – Iaith Gyntaf
 - Swyddog DofE – Iaith Gyntaf
 - Swyddog Cyfranogi – I'w benodi / Alte 5
 - Swyddog Clwb Ieuenctid (rhan amser) – Dysgu Cymraeg.
- Golyga hyn fod y gwasanaeth yn gallu darparu yn Gymraeg a chwrdd ag anghenion yn ôl y galw.

Chart 7: Percentage of youth work projects delivered entirely or mainly through the Welsh language, 2015-16



Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

Data cyfredol a thargedau

Gwybodaeth Mamiaith	Sefyllfa gyfredol	Targed 2017/2018	Targed 2018/2019	Targed 2019/2020
% y disgyblion diwedd CS(bl 2) sy'n cyrraedd o leiaf deilliant 5 mewn I,LI a Ch mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog	90.9%	92%	93+%	95%
% y disgyblion ar ddiwedd CA2 (bl 6) sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg	89.5%	90%	91%	92%
% y disgyblion ar ddiwedd CA3 (bl 9) sy'n cyrraedd o leiaf lefel 5 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg	92.1%	93%	94%	95%
% y disgyblion diwedd CA4 (bl 11) sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU iaith gyntaf	73.5%	74%	75%	75%+
Gwybodaeth Ail Iaith				
% y disgyblion diwedd CA2 (bl 6) sy'n cyrraedd o leiaf lefel 4 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg Ail Iaith	66.8%	70%	75%	80%
% y disgyblion diwedd CA3 (bl 9) sy'n cyrraedd o leiaf lefel 4 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg Ail Iaith	74.1%	75%	78%	80%
% y disgyblion diwedd CA4 (bl 11) sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith cwrs llawn	74.6%	75%	78%	80%
% y disgyblion diwedd CA4 (bl 11) sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith cwrs byr.	88.6%	90%	ddim yn berthnasol oherwydd bod y cwrs yn cael ei ddileu	

% o'r garfan diwedd CA4 sydd wedi cofrestru ar gyfer: i) TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn ii) TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr iii) Heb eu cofrestru ar gyfer y naill na'r llall	dim data ar gael				
CA5 – Cymraeg Safon Uwch Iaith Gyntaf ac Ail Iaith					
Cyfanswm cofrestriadau Lefel A Cymraeg Iaith Gyntaf fel canran o'r cofrestriadau TGAU iaith Gyntaf dwy flynedd yn gynharach	7.2% (2015) 30/417	8%	8.5%	9%	
Cyfanswm cofrestriadau Lefel A Cymraeg Ail Iaith fel canran o'r cofrestriadau TGAU Ail Iaith cwrs llawn ddwy flynedd yn gynharach	3.3% (2015) 9/271	4%	4.5%	5%	
Cyfanswm cofrestriadau Lefel A Cymraeg Ail Iaith fel canran o'r cofrestriadau TGAU Ail Iaith cwrs byr ddwy flynedd yn gynharach	dim data ar gael				

Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).

Y Prif Amcanion (i gyflawni'r deilliant)	Sut mae cyflawni'r amcanion? (Datganiadau Cefnogol)	Cyfrifoldeb a Llinell amser
5.1 Gwellu sgiliau llythrennedd Cymraeg ar draws y cyfnodau allweddol	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro manwl a chyson o safonau ar draws ein hysgolion drwy ddefnydd o ymgynghorwyr her yn gosod a gwirio targedau ar ddeilliannau a lefelau uwch. • Monitro defnydd effeithiol o gynllun iaith sirol. • Dadansoddi data profion darllen cenedlaethol ac asesiadau athrawon ac yn sgil hyn defnyddio arbenigedd Tim Athrawon Cefnogi'r Gymraeg (ACG) ar gyfer addysgu, cyd addysgu, modelu, hyfforddi, monitro, paratoi a chynhyrchu adnoddau. • Parhau gyda'r rhwydweithiau proffesiynol ar gyfer arweinwyr llythrennedd a phynciau CS/ CA2 a CA3 	Swyddogion Sirol Ymweliadau 1 a 2 – dwy waith y flwyddyn Athrawon Cefnogi'r Gymraeg – amserlen yn unol â'r galw Athrawon ymgynghorol llythrennedd - bob hanner tymor.

	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu'r aelodaeth a'r defnydd o rwydweithiau HWB • Rhaglen HMS/ DPP addas sy'n cynnal hyfforddiant safonol ac o ansawdd uchel 	<p>Yn barhaus</p> <p>Swyddog cyfrifol i greu rhaglen addas am y flwyddyn gyda chefnogaeth a mewnbwn rhanbarthol ERW</p>
<p>5.2 Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg iaith Gyntaf ar draws y cyfnodau allweddol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Targeddu pwrpasol ar gyfer gwaith ACG wrth fodelu, cynnig syniadau, monitro a pharatoi adnoddau pwrpasol i gefnogi • Sicrhau dadansoddiad cymharol o gyflawniad y Gymraeg yn erbyn siroedd ieithyddol tebyg gan ddwyn cymariaethau ystyrlon a gweithredu yn unol â hynny • Rhaglen HMS/ DPP addas sy'n cynnal hyfforddiant safonol ac o ansawdd uchel • Adnabod mintai penodol o blant MAT o fewn ardaloedd a chynnig profiad sgwadiau serennu iddynt • Annog athrawon i fanteisio ar Y Cwrs Sabothol a chysiau gloywi yn fewnol a'r rhai a ddarperir gan asiantaethau 	<p>Swyddogion sirol yn dilyn Ymweliadau Craidd 1 a 2 ACG</p> <p>Swyddogion sirol yn flynyddol</p> <p>Swyddog Cyfrifol i greu rhaglen addas am y flwyddyn gyda chefnogaeth a mewnbwn y consortia ERW Athrawon ymgynghorol ac ACG</p> <p>Swyddogion sirol a Choleg Y Drindod Dewi Sant – 2 waith y flwyddyn Cymraeg i Oedolion – 1 cwrs bob tymor</p>

	<p>allanol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhwydweithiau i benaethiaid adrannau'r Gymraeg lle rhennir arfer dda, adnoddau a hyfforddiant yn fewnol neu gan arbenigwyr o ysgolion tu allan i'r Sir neu gan arweinydd dysgu ERW • Defnyddio canolfannau iaith yr ardaloedd er mwyn i hwyrddyfodiaid gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg o fewn eu hysgolion lleol yn ôl y galw • Rhaglen ôl ofalaeth yn yr ysgolion er mwyn cefnogi disgyblion y canolfannau iaith • Trefn cymedroli rymus 	<p>Athrawon ymgynghorol</p> <p>Cydlynnydd Llythrennedd yr awdurdod ERW ACG - yn ôl y galw</p> <p>ACG</p> <p>Athrawon ymgynghorol</p> <p>Swyddogion Sirol ACG</p>
<p>5.3 Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith ar draws y cyfnodau allweddol a datblygu dysgu cyfrwng er mwyn cefnogi'r iaith CS – 40% o'r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg CA 2 - 30-40% o'r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg CA 3 – 15% o'r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg (ceir amrywiaeth mawr mewn capasiti a chyllid o ysgol i ysgol)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro a dadansoddi data asesiadau athrawon er mwyn targedu priodol • Tracio cynnydd ar lefel unigolion, ysgol a sir • Cefnogaeth y Tîm Athrawon Cefnogi'r Gymraeg er mwyn monitro, cynllunio a modelu • Parhau gyda'r defnydd o Gynllun Powys • Datblygu adnoddau ac unedau gwaith priodol sy'n gwau patrymau ieithyddol a gyflwynir drwy Gynllun Powys i fewn i weddill y cwricwlwm er mwyn anelu at dargedau heriol o 40% o'r ddarpariaeth yn y CS trwy gyfrwng y Gymraeg a 30-40% yn CA2 • Hyrwyddo Siarter Iaith ERW (Cymraeg Campus) fel modd i godi safonau Cymraeg Ail Iaith, canran dysgu cyfrwng, defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn gymdeithasol ac ymwybyddiaeth iaith • Hyrwyddo rhwydwaith HWB ar gyfer y siarter a chyfrannu ati 	

	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio Trydar Cymraeg Campus • Trefn cymedroli rymus ar gyfer CA2/ 3 a'r CS 		
<p>5.4 Cynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol (yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Llywodraeth Cymru – rhannu ym Medi 2016)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Canolfan Tregaron - Canolfan hwyrddyfodiaid uwchradd yn bennaf. Cydweithio gyda'r Urdd a Cered i ddarparu sesiynau ymwybyddiaeth iaith a gweithgareddau cymdeithasol. Defnydd oriau ysgol ac ar ôl ysgol i'r gymuned ehangach: Dysgu Bro/ Cymraeg i Oedolion/ Y Teulu. • Defnyddio Holiadur lles yr Awdurdod ar gyfer disgyblion Uwchradd er mwyn cynllunio a darparu sesiynau ymwybyddiaeth iaith i ysgolion uwchradd priodol. • Darparu cyrsiau Chwaraeon buarth ar gyfer ysgolion a'u cynorthwy-wyr • Cyd weithio gyda'r Urdd ar gyfer cystadlu yn yr adran lenyddol –Ail iaith a mamiaith yn Eisteddfodau'r Urdd yn ogystal â gweithgareddau corfforol • Cynllun iaith trwy Ddrama a ddarperir i ysgolion targed • Gwaith Theatr Mewn Addysg - Theatr Arad Goch • Cydweithio gyda swyddogion Theatr Felinfach i ddatblygu agweddau megis Tic-Toc (Sesiynau creadigol, dawns, cân a stori i blant bach 0-3 oed a'u rhieni/gwarcheidwaid. Cymraeg yw cyfrwng y sesiynau gyda phwyslais ar gyflwyno'r Gymraeg i rieni di-Gymraeg mewn ffordd anffurfiol a hwyliog), Dramatic (Clybiau Drama i blant 7-11 oed mewn 3 canolfan yn y sir), Clwb Dawns i blant 4-6 oed, CDIC a CDIC Iau (Dau gwmni dawns i blant a ieuencid yw rhain er mwyn denu siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a hwyrddyfodiaid i weithgaredd creadigol), Cadw Sŵn, CIC ac Ysgol Berfformio (Prosiectau ar gyfer bobl ifanc 11–18 oed), Brasgam (Rhaglen ddawns aml-thema sy'n gyfres o ddisbarthiadau dawns dull penodol ar gyfer bob ystod oedran ac a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg). 	<p>Ystadegydd Sirol Cered</p> <p>Athrawon ymgynghorol ACG</p> <p>ACG a swyddog datblygu'r Urdd yn lleol</p> <p>Athrawon Ymgynghorol / TGCh – rhwydweithiau penaethiaid adrannau/ llythrennedd Cered/ Llyfrgelloedd Ceredigion</p>	

	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddogion Theatr Felinfach yn cydweithio â thîm Cefnogi'r Gymraeg i greu a chyflwyno diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd. • Annog gwaith radio ysgol gyfan trwy raglenni fel 'Audacity' a Radio Beca – trwy gyfrwng y Gymraeg • Defnyddio TGCh a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol ar gyfer targedu cyfathrebu yn y Gymraeg • Cefnogi arferion ysgolion uwchradd gyda'u clybiau Cymreictod – cydweithio aml-asiantaeth • Sesiwn darllen stori yn ein canolfannau iaith • Swyddogion Gwasanaeth Ieuenctid/ 5x60 i fod yn rhan o'r sesiynau ymwybyddiaeth iaith • Cynllunir i gyflwyno Siarter Iaith Uwchradd o fewn oes y cynllun hwn gan ganolbwyntio ar gryfhau defnydd cymdeithasol y Gymraeg ymysg y disgyblion. 		
<p>5.5 Codi Cofrestriadau Safon Uwch Cymraeg a Chymraeg ail iaith</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyd weithio gyda Gyrfa Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn hyrwyddo manteision Cymraeg Safon Uwch ac er mwyn gwella cyfleoedd gwaith a chyflogaeth. Gwneir hyn drwy nosweithiau agored i hyrwyddo manteision astudio'r Gymraeg fel pwnc i Safon Uwch a chysiau gradd yn y Gymraeg. Bydd cyswllt yn cael ei greu rhwng ein hysgolion a phrifysgolion gan dargedu disgyblion Blwyddyn 11 yn benodol i'w hannog i astudio'r Gymraeg. 		

Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg

Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).

Pedwar prif amcan

- Adolygu'r ddarpariaeth yn flynyddol gan fonitro unrhyw ddatblygiadau ieithyddol ac felly gallu'r awdurdod i gynnig gwasanaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Parhau i geisio penodi staff sydd yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg (lle mae angen lefel o arbenigedd mae'n rhaid nodi ei bod weithiau yn anodd penodi staff sy'n rhugl ac yn cwrdd â'r gofynion. Mewn amgylchiadau penodol mae swyddi yn cael eu cynnig i ymgeiswyr ar yr amod eu bod yn cwrdd â'r meini prawf ieithyddol disgwylledig o fewn dwy flynedd).
- Parhau i gynnal y tîm o arbenigwyr presennol mewn cyfnod o gynni a phwysedd ariannol.
- Ymateb i ofynion y mesur Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ac osgoi'r risg, dros y blynyddoedd nesaf, o wahaniaethu yn erbyn siaradwyr Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol o ganlyniad i ddiffyg darpariaeth gwasanaethau Cymraeg ar eu cyfer.

Datganiad cefnogol

- Byddwn yn sicrhau bod pob un o wasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol Ceredigion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i'r sector gynradd ac uwchradd. Nid oes yna ddisgyblion yn yr awdurdod sy'n methu cael addysg cyfrwng Gymraeg am na all yr awdurdod ddarparu cefnogaeth addas trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth yr awdurdod am y gwasanaeth ADY a gynigir o safbwynt y Gymraeg (a'r ddarpariaeth yn gyffredinol) yn llawn a thrwyadl.
- Bydd y gwasanaeth yn ymateb yn llawn i ofynion y mesur 'Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)' ac yn sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'r ddarpariaeth ar bob lefel.
- Byddwn yn sicrhau bod dull gweithio'r gwasanaeth yn y Gymraeg ac yn parhau felly. Mae unrhyw ymyrraeth a darpariaeth i ddisgyblion yn iaith eu haddysg. Mae'r gwasanaeth ar gael i ddisgyblion, ysgolion a rhieni yn eu dewis iaith. Mae adolygiadau blynyddol gyda rhieni yn trafod iaith y ddarpariaeth ADY a sut mae hwnnw yn gallu hybu datblygiad y disgybl. Mae holl staff unedau cyfeirio'r ALI yn medru'r Gymraeg. Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad ar gael yn Gymraeg. Mae SEBSAs (Social, Emotional, Behaviour Support Assistants) y gwasanaeth i gyd yn medru'r

Gymraeg. Mae yna 14 ohonynt. Datblygwyd adnoddau ar gyfer rhaglenni ymyrraeth strwythuredig cyfrwng Cymraeg e.e. ffoneg adferol TRANDEP ac ym maes rhifedd CYFRIF CEREDIGION a rhaglenni hyfforddiant dilynol. Mae rhaglen hyfforddi ddwys ar ymyrraeth ddarllen cyfrwg Cymraeg wedi ei ddarparu ar draws y sir. Cyflogir tair cymhorthydd hybu medrau sylfaenol (Cymraeg eu hiaith) er mwyn modelu a monitro ymyrraeth. Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd Ceredigion, mae hynny yn digwydd drwy'r Gymraeg. Mae Gwasanaeth y Seicolegwyr Addysg ar gael yn y Gymraeg gan bod pob un yn rhugl yn yr iaith. Ceir Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y Gwasanaeth Iechyd a'r ALI o ran cefnogaeth Therapyddion Iaith a Lleferydd yn yr ysgolion ac yn y sefydliadau nas-gynhelir. Mae darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg yn rhan o'r cytundeb hwnnw. Mae 5 allan o 6 o'r therapyddion sy'n gweithio yn yr ysgolion yng Ngheredigion yn rhugl yn y Gymraeg. Nam ar y clyw – dwy aelod o staff yn deall Cymraeg ond nid yn rhugl. Nam ar y golwg – un aelod o staff sydd yn deall Cymraeg ond nid yn rhugl.

- Cynhelir awdit pellach yn Nhymor yr Haf 2018 gan ymateb i'r canfyddiadau yn Nhymor yr Hydref 2018. Gweithredir ar unrhyw faterion yn ymwneud â'r ddarpariaeth yn sgil hynny drwy gynllunio ar eu cyfer gyda Phennaeth AAA, Cynhwysiant a Lles yr ALI.
- Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio gydag eraill (siroedd eraill/ o fewn y consortia rhanbarthol) i wella'r ddarpariaeth yn ôl yr angen/ y galw ac i rannu unrhyw arferion da.
- Wrth benodi staff byddwn yn parhau i ofyn am fesur o allu ieithyddol ymgeiswyr drwy'r drefn lefelau ALTE. Y nod yw bod staff a benodir yn cyrraedd Lefel 4 yn eu galluoedd llafar. Derbynnir Lefel 3 o ran galluoedd ysgrifenedig. Os oes achos lle ceir aelod o staff nad yw'n gwbl rhugl yn y Gymraeg yna fe'i cefnogir drwy gynnig hyfforddiant ieithyddol dwys.

Deiliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r deiliant hwn (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).

Prif Amcanion

- Parhau i ymateb i'r heriau sydd yn codi yn bennaf wrth benodi penaethiaid.
- Ymweld â ffeiriau addysg a gynhelir mewn prifysgolion a cholegau i ledaenu gwybodaeth i ddarpar athrawon cynradd ac uwchradd am Geredigion fel sir ddeniadol i fyw ac i weithio ynddi a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Parhau i gynnig cyrsiau sabothol (trochi a gloywi) i gymorthyddion ac athrawon dosbarth a pharhau i gydweithio gydag ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf ar ddiwallu gofynion ieithyddol wrth benodi staff.
- Parhau i gyd-weithio gyda phartneriaid e.e.yn y Mudiad Meithrin er mwyn targedu unrhyw angen ieithyddol yn y lleoliadau nas cynhelir gan deilwra hyfforddiant penodol yn unol ag anghenion y staff.
- Parhau i ddatblygu cefnogaeth rhwng ysgolion er mwyn rhannu'r arferion gorau wrth addysgu ac wrth hyrwyddo'r Gymraeg.

Datganiad cefnogol

- Mae Polisi Rectriwio'r awdurdod yn glir. Byddwn yn cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, arweinwyr ysgolion a Chyrff Llywodraethol i sicrhau bod gofynion swyddi (Penaethiaid, Athrawon a Chymorthyddion) sy'n gofyn am y gallu i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu diwallu'n llwyddiannus. Pennir Lefelau ALTE ar gyfer gallu llafar, darllen ac ysgrifennu yr ymgeisydd i bob swydd yn y Cyngor.
- Byddwn yn cwrdd gyda Rheolwraig Prosiectau y Cynllun Sabothol (Canolfan Peniarth) ac yna'n nodi dyddiadau a lleoliadau i'w cynnig i staff unigol mewn ysgolion gan dargedu ardal Aberystwyth i ddechrau (Ebrill 2017 ymlaen).
- Bydd ymweliadau Ymgynghorwyr Her yn nodi/ adnabod angen i ddarparu cefnogaeth i ddatblygu iaith staff addysgu a chefnogol (Hydref 2016 ymlaen).
- Byddwn yn parhau i sicrhau y bydd pob hyfforddiant ym mhob maes a gynigir gan Awdurdod Addysg Ceredigion sy'n ymwneud ag addysgu ar gael yn y Gymraeg ar gyfer athrawon a chymorthyddion dysgu cynradd ac uwchradd (ac eithrio hyfforddiant Saesneg fel pwnc). Os nad oes darparwr Cymraeg (allanol ran amlaf), bydd cyfieithydd ar gael.
- Byddwn yn defnyddio'r Gwasanaeth Athrawon Cefnogi'r Gymraeg yn effeithiol ar gyfer hyfforddiant a mentora gan dargedu ymarferwyr a grwpiau targed o ddisgyblion yn unol â data cyrhaeddiad ysgolion yn y Gymraeg.
- Bydd y Tîm Athrawon Cefnogi'r Gymraeg yn parhau i fodelu a chynllunio ar y cyd yn yr ysgolion.
- Bydd cynlluniau iaith y sir a rhanbarthol (ERW) yn cynnig arweiniad i ymarferwyr ar ddatblygu agweddau ar yr iaith lafar,

darllen ac ysgrifennu wrth ymateb i'r Fframweithiau Llythrennedd Cenedlaethol.

- Byddwn yn trefnu bod cydweithio rhwng aelodau staff cyfrifol mewn ysgolion gyda chynrychiolydd/ wyr o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol/ Canolfan Peniarth. Bydd hyn er mwyn codi ymwybyddiaeth gryfach ymysg athrawon yn gyffredinol o'r cyfleoedd sydd yna i'w disgyblion i astudio drwy'r Gymraeg ar lefel uwch a'r buddion ariannol a gyrfaol sy'n deillio o ddilyn darpariaeth Cymraeg a bod y wybodaeth yma yn cael ei throsglwyddo i'r disgyblion.
- Bydd y Gymraeg yn parhau yn rhan ganolog o Strategaeth Gwella Ysgolion Ceredigion.
- Bydd yr awdurdod yn parhau i ddarparu ei gwasanaeth gwella ysgolion drwy gyfrwng y Gymraeg i bob ysgol, gan gynnwys dadansoddi ar lefel ysgol, dosbarth ac unigol o gyraeddiadau a chynnydd disgyblion.
- Bydd yr awdurdod yn parhau i gynnig rhaglen 'Datblygiad Proffesiynol Parhaus' â'r Gymraeg yn greiddiol iddi, gan gynnwys darpariaeth ar raglenni ymyrraeth, profion darllen cenedlaethol a'r Fframwaith Llythrennedd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd rhwydweithiau sirol yn parhau i dalu sylw i ddatblygu'r Gymraeg fel pwnc yn llwyddiannus drwy hyfforddiant sirol o'r radd flaenaf ar lafared, darllen, ysgrifennu a phontio rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3.
- Bydd rhwydweithiau sirol yn talu sylw i nifer o elfennau Cymraeg Ail Iaith gan gynnwys addysgu cyfrwng Cymraeg, methodoleg, cynllunio a chymedroli.
- Bydd awdit o sgiliau ieithyddol y gweithlu presennol yn cael ei chynnal yn ystod Tymor yr Haf 2018 gyda chynllunio penodol i ymateb i unrhyw ganfyddiadau yn weithredol o fis Medi 2018 ymlaen. Mae Adran Adnoddau Dynol yr ALI yn cadw'r wybodaeth yma gan ei fod yn ddata sy'n cael ei gasglu wrth benodi.

Llofnodwyd: Barry Rees

Dyddiad: 30/09/16

(Mae angen llofnod y Prif Swyddog Addysg o fewn yr awdurdod lleol)

Atodiad

Esboniad i'r byrfoddau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

TGCh	-	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
CFfl	-	Ciwb Ffermwyr Ifanc
CSGA	-	Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg
LIC	-	Llywodraeth Cymru
HA	-	Hunan Arfarnu
CA	-	Cyfnod Allweddol (e.e. CA2, CA3, CA4)
CDY	-	Cynllun Datblygu Ysgol
GGD	-	Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
MM	-	Mudiad Meithrin
HMS	-	Hyfforddiant Mewn Swydd
ABCh	-	Addysg Bersonol a Chymdeithasol
CS	-	Cyfnod Sylfaen
BI	-	Blwyddyn (e.e. BI10)
TGAU	-	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
ALI	-	Awdurdod Lleol
ERW	-	Education Through Regional Working
DPP	-	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
MAT	-	Mwy Abl a Thalentog
ACG	-	Tîm Athrawon Cefnogi'r Gymraeg